**Grŵp Cyswllt â'r Gymuned Fferm Solar Porth Wen**
**4pm, dydd Mercher 13 Hydref 2021**
**Neuadd Bentref Cemaes**
**COFNODION**

**Aelodau**

| Enw | Rôl/sefydliad |
|---|---|
| Angharad Crump | Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd John Griffith | Ward Talybolion |
| Y Cynghorydd Aled Morris Jones | Ward Twrcelyn |
| Dr Debbie Jones | Rheolwr Arloesi Carbon Isel, M-Sparc |
| Y Cynghorydd Derek Owen | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cynghorydd Liz Wood | Cyngor Cymuned Amlwch |

**Yn bresennol**

| Enw | Rôl/sefydliad |
|---|---|
| John Hill | Rheolwr Adeiladu, EDF Renewables |
| Kerry MacPhee | Swyddog Cyswllt â'r Gymuned, EDF Renewables |
| Gwynfor Owen | Cyfieithydd ar y pryd, Geiriau Gwyn |
| Christian Rohman | Rheolwr Prosiect, EDF Renewables |

**1. Croeso**

Hwylusodd KMP y cyfarfod tan eitem 4 pan etholwyd cadeirydd.

**2. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Pryderi ap Rhisiart.

**3. Cylch Gorlchwyl**

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

<u>(1) Rôl y Grŵp Cyswllt</u>

• (1.5) Gofynnodd y grŵp i amserlenni gael eu gosod o ran pa mor hir cyn y cyfarfod nesaf y bydd agenda yn cael ei gosod.

<u>(2) Aelodaeth y Grŵp</u>

Teimlai'r grŵp yn gryf iawn y dylai'r Grŵp Cyswllt â'r Gymuned fod yn fforwm agored i unrhyw aelodau o'r gymuned ei fynychu. Cytunwyd y bydd y grŵp craidd yn cynnwys y rhestr o sefydliadau a amlinellwyd, ond bydd y cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd. Os yw'n angenrheidiol i aelodau craidd y Grŵp Cyswllt â'r Gymuned gwrdd yn breifat, yna gallan nhw ddewis gwneud hynny.

<u>(3) Trefniadau'r cyfarfodydd</u>

• (3.1) Hoffai'r grŵp ail-eirio hwn i adlewyrchu eu bod yn enwebu cadeirydd.

• (3.3) Hoffai'r grŵp pe bai amserlen ar gyfer pryd y darperir yr agenda a phryd y gwahoddir aelodau'r Grŵp Cyswllt â'r Gymuned i gyflwyno eitemau ar yr agenda.

• Hoffai'r grŵp ychwanegu pwynt arall: "Dylai cadeirydd y Grŵp Cyswllt â'r Gymuned fod yn annibynnol a gweithredu mewn modd agored a thryloyw trwy gydol y gweithgarwch." Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn sicr y bydd yn gallu arwain cyfarfodydd yn y dyfodol a chadw sgyrsiau ar y trywydd iawn ac yn unol â'r agenda.

(7) Trefniadau’r cyfarfodydd

• (7.1) Cytunodd y grŵp gynnal y cyfarfod nesaf cyn y Nadolig, a chyfarfod oddeutu bob tri mis wedi hynny. Cytunodd y grŵp gwrdd ar yr un amser o'r dydd ac yn yr un lleoliad lle bo hynny'n bosibl.

Cam gweithredu: Ailddrafftio a chylchredeg y cylch gorchwyl i'r grŵp.

**4. Ethol cadeirydd**

Enwebodd LW AMJ fel Cadeirydd, eiliwyd gan DO. Derbyniodd AMJ ac arweiniodd ef y cyfarfod o hynny ymlaen.

**5. Diweddariad ar y prosiect**

Cyflwynwyd diweddariad byr, lefel uchel ar y prosiect.

**6. Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd y grŵp i'r pynciau canlynol fod ar agenda'r cyfarfod nesaf:

- Y Gadwyn Gyflenwi (JH)
- Diweddariad ar y prosiect gan gyfeirio'n benodol at gyfathrebu ar fynediad a diogelwch ar y safle (CR)
- Cronfa Budd Cymunedol: enghreifftiau o sut mae cronfeydd eraill wedi'u gweinyddu a'u rheoli (KMP)

**7. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**

4-6pm dydd Mercher 17 Tachwedd yn Neuadd Bentref Cemaes.